



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru

SFWIN 08/2020

**Canllawiau ar Reoli Gwrthdaro Buddiannau Lwfansau Myfyrwyr
Anabl – diweddarwyd Chwefror 2020**

Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrwydd bod unrhyw wrthdaro buddiannau wrth reoli Lwfansau Myfyrwyr Anabl yn cael ei reoli mewn ffordd nad yw'n creu risg neu ragdybiaeth o amhriodoldeb. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno polisi Llywodraeth Cymru ar nodi achosion ymddangosiadol a gwirioneddol o wrthdaro buddiannau, yn ogystal â chynnig arweiniad ar reoli hynny.
2. Mae angen tryloywder o'r radd flaenaf er mwyn dangos bod enghreifftiau o wrthdaro buddiannau yn cael eu rheoli mewn modd nad yw'n tanseilio cywirdeb ac atebolrwydd Lwfansau Myfyrwyr Anabl, neu rai sy'n gweinyddu'r Lwfansau hynny. Rhaid i unrhyw un sy'n ymwneud â chymorth wedi'i ariannu gan Lwfansau Myfyrwyr Anabledd gofio am y safonau moesegol uchel y disgwylir ganddynt wrth ymwneud ag arian cyhoeddus, a gweithredu yn unol â'r nodyn hwn.
3. Mae'r canllawiau hyn yn disodli rhai blaenorol am Wrthdaro Buddiannau.

Ar gyfer beth mae datganiadau gwrthdaro buddiannau?

4. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n deg, yn dryloyw, ac at y dibenion y bwriadwyd yr arian ar eu cyfer. Defnyddir datganiadau gwrthdaro buddiannau i roi sicrwydd bod gwrthdaro buddiannau yn rhan o'r asesiadau risg arferol a gynhelir gan unrhyw sefydliad, ac os daw unrhyw wrthdaro buddiannau i'r amlwg, bod hynny'n cael ei reoli mewn ffordd briodol ac amserol.

Egwyddorion

5. Hoffai Llywodraeth Cymru roi'r disgresiwn a'r rhyddid i unigolion sy'n ymdrin â Lwfansau Myfyrwyr Anabl wneud gweithgareddau busnes - ond trwy wneud hynny, mae angen cyflwyno dull o ddiogelu arian cyhoeddus, rhanddeiliaid, myfyrwyr a'r llywodraeth ei hun rhag unrhyw niwed i enw da a rhwymedigaethau eraill. Yn gryno, mae'r canllawiau Gwrthdaro Buddiannau yn dilyn tair egwyddor allweddol:
 - Datgelu bob amser
 - Rheoli'r gwrthdaro os oes modd, ac os nad oes modd
 - Atal y gweithgaredd lle bo modd er mwyn amddiffyn, a chael eich gweld yn amddiffyn, buddiannau'r cyhoedd.
6. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob unigolyn a sefydliad sy'n ymdrin â Lwfansau Myfyrwyr Anabl gynnal safonau cywirdeb o'r radd flaenaf. Mae'r camau lliniaru y gall sefydliadau neu unigolion eu cymryd yn cynnwys, er enghraifft, annog unigolion i esgusodi eu hunain pan nodir achos real, posib neu ymddangosiadol o wrthdaro buddiannau, neu hapwrio penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan rywun arall yn rheolaidd. Cyfrifoldeb y sefydliad yw sicrhau eu bod yn gallu dangos prosesau clir ac agored ar gyfer cynnal tryloywder

Beth yw gwrthdaro buddiannau?

7. Mae gwrthdaro buddiannau yn codi pan mae gallu'r unigolyn i wneud penderfyniad yn cael ei amharu gan ei ymrwymiad i neu gysylltiad ag unigolyn arall, mewn rôl neu weithgaredd arall, neu y gallai hyn fod yn wir: mewn geiriau eraill, bydd achos o wrthdaro buddiannau yn codi pan fo unigolyn sy'n gyfrifol am arian cyhoeddus mewn

sefyllfa lle gallai ei allu i ddilyn y safonau uchaf posib a ddisgwylir fod dan amheuaeth, oherwydd buddiannau eraill.

8. Camsyniad cyffredin yw bod hyn yn cyfeirio at fuddiannau ariannol yn unig. Fodd bynnag, mae *unrhyw* fuddiant neu berthynas, gam gweithredu neu hepgoriad, a all fwrw amheuaeth ar allu'r unigolyn i gyflawni'r safonau disgwylidig neu sy'n taflu amheuan ar ddiueddrwydd yr unigolyn hwnnw, yn gallu bod yn achos o wrthdaro buddiannau. Gall buddiannau anariannol gynnwys unrhyw fuddiant neu fantais, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i, roi hwb uniongyrchol neu anuniongyrchol i yrfa'r unigolyn, neu greu mantais i deulu agos (neu rywun sydd mewn perthynas bersonol â'r unigolyn).
9. Gall sefyllfaoedd godi lle mae'n ymddangos bod achos o wrthdaro buddiannau er nad oes yna mewn gwirionedd. Felly, wrth werthuso achos posib o wrthdaro buddiannau mae'n bwysig bod pawb sy'n gysylltiedig â'r mater yn ystyried sut y gallai ymddangos i eraill. Mae'r ddyletsydd i ddatgan gwrthdaro posib felly'n berthnasol i'r *canfyddiad* o'r sefyllfa yn hytrach na gwir achos o wrthdaro buddiannau.
10. Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud penderfyniadau am weinyddu, dosbarthu neu ddefnyddio arian cyhoeddus fod yn ymwybodol bob amser o unrhyw berthnasoedd neu gysylltiadau sydd ganddynt, neu unrhyw gamau maen nhw'n eu cymryd neu ddim yn eu cymryd, a allai olygu bod eu didueddrwydd neu eu gonestrwydd dan amheuaeth. Mae hynny'n cynnwys unrhyw berthnasoedd neu gysylltiadau - gan gynnwys rhai personol, ariannol, busnes, neu deuluol – a allai gael eu gweld fel rhai sy'n dylanwadu ar eu penderfyniadau.
11. Yn achos Lwfansau Myfyrwyr Anabl, byddai hynny fel arfer yn golygu (ond nid yn gyfyngedig i) berthnasoedd neu gysylltiadau sy'n rhoi mantais annheg wirioneddol neu ymddangosiadol neu fantais ariannol i unigolyn neu sefydliad. Gall enghreifftiau o ymddygiadau a fyddai'n dangos rheolaeth aneffeithiol o wrthdaro buddiannau yn cynnwys:
 - Aseswr sydd â buddiant ariannol mewn cyflenwr cymorth arbenigol anfeddygol, cyfarpar neu gyflenwr technoleg gynorthwyol. Mae hyn yn creu'r canfyddiad y gallai'r cyflenwr gael triniaeth ffafriol a'i fod yn elwa'n ariannol ar y berthynas.
 - Aseswyr neu ddarparwyr/cyflenwyr sydd ag aelodau'r teulu neu gymdeithion sy'n gweithio i sefydliadau neu gyrff eraill Lwfans Myfyrwyr Anabl. Mae hyn yn creu'r canfyddiad bod y cyrff dan sylw'n cael triniaeth ffafriol ac y gallant elwa'n ariannol ar y berthynas.
12. Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac mae'n hollbwysig bod unrhyw berthynas neu gysylltiadau, waeth pa mor fach, yn cael eu nodi a'u rheoli.
13. Un maes allweddol yw'r detholiad o ddyfynbrisiau i'w cynnwys mewn Adroddiadau Asesu Anghenion. Aseswyr sy'n gyfrifol am ddewis a dethol dyfynbrisiau addas ar gyfer cymorth arbenigol anfeddygol, ac er mai'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr sydd â'r gair olaf o ran pa bris i'w ddefnyddio, bydd canolfannau asesu yn dal yn gyfrifol am sicrhau

bod y dyfynbrisiau a gyflwynwyd i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr wedi'u dewis heb ddylanwad unrhyw wrthdaro buddiannau neu dueddiadau/gogwydd.

Datgan buddiannau

14. Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod holl Ganolfannau Asesu, Darparwyr Gwasanaethau a Thechnoleg Cynorthwyol a chyflenwyr Cymorth Arbenigol Anfeddygol yn cadw datganiad o fuddiannau cynhwysfawr a chyfoes ac yn ei gyflwyno gan ddefnyddio'r ffurflen enghreifftiol yn ôl y gofyn. Mae hyn er mwyn sicrhau y gallwn fodloni ein hunain bod pob Lwfans Myfyrwyr Anabl yn cael ei ddsbarthu mewn ffordd deg, agored a thryloyw. Gofynnir i bob darparwr Lwfans Myfyrwyr Anabl a/neu gyflenwr gyflwyno datganiad Gwrthdaro Buddiannau bob blwyddyn.

CAM GWEITHREDU: Bydd darparwyr Lwfans Myfyrwyr Anabl a chyflenwyr yn cyflwyno Datganiad o Wrthdaro Buddiannau blynyddol sy'n ymwneud â'u gwaith Lwfans Myfyrwyr Anabl.

15. Rhaid darparu'r datganiad ar ffurflen sy'n cael ei darparu i gyflenwyr. Dylai unigolyn cyfrifol a enwir yn y sefydliad gynnal y datganiad hwn, ac ef/hi fydd yn gyfrifol am lenwi'r datganiad blynyddol hefyd. Rhaid i'r holl ddatganiad gwreiddiol fod ar gael i Lywodraeth Cymru neu ei hasiantau ar gais, er enghraifft mewn archwiliad.
16. Bydd y wybodaeth a gyflwynir ar y ffurflen yn cael ei defnyddio yn unol â Datganiad Preifatrwydd Adran Addysg San Steffan a / neu Ddatganiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru (Atodiad 1), fel sy'n briodol. Mae Datganiad Preifatrwydd Adran Addysg San Steffan i'w gael yn Nogfen Canllaw Adran Addysg San Steffan a gallwch dod i hyd iddo trwy ddilyn https://www.practitioners.sl.c.o.uk/media/1837/conflicts-of-interest-ssin_july-2020_final.pdf.

Darparwyr gwasanaethau i fyfyrwyr a ariennir gan Gymru yn ogystal â myfyrwyr a ariennir gan Loegr

17. Rydym yn ymwybodol fod rhai o'r sefydliadau sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau Lwfansau Myfyrwyr Anabl i fyfyrwyr sy'n cael eu hariannu gan Student Finance England (SFE) hefyd yn darparu nwyddau a gwasanaethau i fyfyrwyr sy'n cael eu hariannu gan Lwfansau Myfyrwyr Anabl a ddarperir gan Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFW). Mae Adran Addysg San Steffan (DfE) a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar broses ar y cyd ar gyfer darparwyr sydd yn y sefyllfa hon. Felly, mae'n ofynnol i ddarparwyr sydd, neu a fydd, yn darparu cymorth i fyfyrwyr sy'n cael eu hariannu gan SFE a Cyllid Myfyrwyr Cymru ddychwelyd eu Datganiad Gwrthdaro Buddiannau i'r DfE a Llywodraeth Cymru (h.y. un copi i bob corff cyllido). Os mai dim ond cefnogi myfyrwyr a ariennir gan SFE maen nhw/byddan nhw, yna dim ond i DfE y bydd angen dychwelyd eu datganiad. Os ydyn nhw/byddan nhw yn cefnogi myfyrwyr sy'n cael eu hariannu gan Cyllid Myfyrwyr Cymru yn unig, yna dim ond i Lywodraeth Cymru y bydd angen anfon eu datganiad.
18. Os oes problem gyda chyflenwr sy'n cyflwyno cymorth i fyfyrwr sy'n cael ei ariannu gan SFE a Cyllid Myfyrwyr Cymru, yna bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod y

canfyddiadau ac yn cytuno ar unrhyw gamau gweithredu ar y cyd, fel bo'r angen ac yn briodol.

Newidiadau i ddatganiadau

19. Rhaid hysbysu'r DfE a Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau i'r datganiad, fel y bo'n briodol. Er mwyn bod yn gwbl glir, mae hyn yn cynnwys ychwanegu neu ddileu enwau a/neu unrhyw wrthdaro buddiannau a nodwyd, neu'r dulliau o reoli unrhyw wrthdaro a nodwyd. Pan fo staff newydd yn rhan o hyn, ac nad oes unrhyw wrthdaro, nid oes angen hysbysu am hyn.

CAM GWEITHREDU: Bydd darparwyr Lwfansau Myfyrwyr Anabl yn rhoi gwybod i DfE a Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau i'r datganiad Diddordeb Buddiannau

20. Rhaid diweddarau a chyflwyno newidiadau o fewn yr amserlenni canlynol:

- O fewn 10 diwrnod i ddyfarnu contract, cytundeb newydd ac ati, neu'r dull o ddarparu gwasanaethau Lwfansau Myfyrwyr Anabl sy'n newid y datganiad Gwrthdaro Buddiannau
- O fewn 10 diwrnod i'r adeg y gwnaeth aelod o staff nodi gwrthdaro newydd neu wrthdaro wedi newid, gan gynnwys aelodau staff newydd sy'n dechrau gweithio ac a nododd wrthdaro buddiannau
- O fewn 10 diwrnod i unrhyw newidiadau i'r modd y rheolir achosion cyfredol o wrthdaro.

Rheoli gwrthdaro buddiannau

21. Mae cyfrifoldeb ar bawb sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus i nodi lle gallai achos o wrthdaro buddiannau godi, a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i'w rheoli. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn nhegwch y system Lwfansau Myfyrwyr Anabl.

22. Rydym yn disgwyl i bob sefydliad roi ystyriaeth ddifrifol i reolaeth unrhyw wrthdaro buddiannau, ond mater i'r unigolion a'r sefydliadau yw ystyried *sut* i reoli hyn mewn ffordd gytbwys ac addas. Fodd bynnag, rhaid cymryd camau i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn cael eu gweld fel rhai diduedd, tryloyw a chadarn. Rhaid cofnodi unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd yn glir, a darparu'r manylion gyda'r datganiad Gwrthdaro Buddiannau.

CAM GWEITHREDU: Bydd darparwyr Lwfansau Myfyrwyr Anabl a chyflenwyr yn cadw cofnodion clir o unrhyw gamau a gymerwyd i nodi ac ymdrin â gwrthdaro buddiannau. Bydd manylion am y camau a gymerwyd yn cael eu darparu gyda'r datganiadau Gwrthdaro Buddiannau.

23. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i ddarparwyr a chyflenwyr anfon tystiolaeth o sut mae achosion o wrthdaro yn cael eu monitro a'u rheoli unrhyw bryd.

Beth ddylai datganiad o wrthdaro buddiannau ei gynnwys?

24. Dylai'r datganiad nodi'n glir pa broses sydd gan y sefydliad i nodi unrhyw wrthdaro buddiannau posib, a pha mor aml mae'n gwneud hynny. Dylai gynnwys manylion am y datganiad y mae'n rhaid i'r holl staff ei lofnodi (h.y. nid dim ond aseswyr) ac atodi copïau o'r rhain gyda'r datganiad os yw'r staff wedi nodi gwrthdaro unigol.
25. Dylai holl aelodau staff y sefydliad lofnodi'r un datganiad gwrthdaro buddiannau, a rhaid i reolwyr fod yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn deall eu disgwyliadau o nodi unrhyw wrthdaro. Rhaid i'r holl ddatganiadau staff gael eu llofnodi yn ogystal â'u cydlofnodi gan y rheolwr neu unrhyw unigolyn cyfrifol arall, a dylai'r datganiad gwreiddiol wedi'u llofnodi (neu eu dilysu'n electronig) fod ar gael at ddibenion archwilio.
26. Er enghraifft, gallai datganiad ddweud rhywbeth tebyg i hyn am y broses o nodi achos o wrthdaro personol:

"Bob blwyddyn gofynnwn i'r holl staff lofnodi datganiad buddiant. Y broses a ddilynwn yw bod rheolwyr llinell yn cyfweld â phob aelod o'u tîm i sicrhau eu bod yn deall y broses. Hefyd, mae rheolwyr yn sicrhau bod staff yn deall bod yn rhaid iddynt nodi unrhyw berthnasoedd/gysylltiadau (ariannol neu bersonol) sydd ganddynt ag unrhyw rannau eraill o'r sefydliad, neu gyda darparwyr Lwfansau Myfyrwyr Anabl eraill, a allai godi cwestiynau o amhriodoldeb wrth ddyrannu'r Lwfansau hyn. Yna gofynnwn i'r aelodau staff lofnodi a dyddio'r datganiad, sydd ar yr un pryd yn cael ei gydlofnodi a'i ddyddio gan y rheolwr cyfweld. Byddwn yn dilyn yr un broses gydag aelod newydd o staff, ac yn ei hailadrodd ar gyfer yr holl aelodau staff pe bai'r sefydliad dan berchnogaeth newydd. Mae'r holl ddatganiadau gwreiddiol a lofnodwyd yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn cyfeirio atynt ymhellach".

27. Rhaid i'r datganiad hefyd gynnwys manylion am sut bydd unrhyw wrthdaro personol a nodwyd yn cael ei reoli. Rhaid i'r dull o reoli gwrthdaro buddiannau fod yn benodol ac yn addas i'r gwrthdaro dan sylw, a dangos sut na chaniateir i'r achos hwnnw o wrthdaro ddylanwadu ar Lwfansau Myfyrwyr Anabl. Felly, gallai datganiad ar reoli gwrthdaro personol penodol ddweud rhywbeth tebyg i'r canlynol:

"Mae ein haseswr Siân Jones wedi dweud bod ei chymar Siôn Jones yn gweithio i gwmni XYZ sy'n darparu cymorth arbenigol anfeddygol trwy'r Lwfansau Myfyrwyr Anabl. Er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau, rydym wedi symud Siân o'i rôl darparu dyfynbris wrth asesu myfyrwyr ar gyfer Lwfans Myfyrwyr Anabl. Pan fydd Siân yn asesu myfyriwr ac yn nodi ar yr Adroddiad Asesiad o Anghenion ei fod angen Cymorth Anfeddygol, mae'n anfon yr Adroddiad Asesiad o Anghenion cyflawn ataf i fel rheolwr. Rwy'n nodi dau ddyfynbris addas ar gyfer y cymorth anfeddygol ac yn anfon yr Adroddiad Asesu Anghenion ymlaen i SFE. Nid oes gan Siân unrhyw gysylltiad â'r Adroddiadau Asesu Anghenion sy'n cynnwys argymhellion Cymorth Anfeddygol ar ôl y cam cyfweld. Trwy wahanu rôl Siân fel hyn, rydym wedi nodi a rheoli'r gwrthdaro buddiannau mewn ffordd briodol. Atodaf ddatganiad o fwriad Siân yn unol â'r gofyn."

28. Dylai unrhyw brosesau ar gyfer nodi gwrthdaro sefydliadol a'u rheoli gael eu disgrifio yn yr un modd â'r ddwy enghraifft uchod.

Yr hyn na ddylai'r datganiad fod

29. Ni ddylai datganiad:

- Fod yn ddatganiad o bolisiâu'r sefydliad, ac eithrio pan mae hyn yn effeithio'n benodol ar ddatganiadau buddiant
- Fod yn esboniad o sut mae'r sefydliad yn asesu myfyrwyr
- Fod yn esboniad o sut mae'r sefydliad yn recriwtio aseswyr
- Canolbwyntio ar un cyflenwr pan mae cyflenwyr eraill yn berthnasol hefyd
- Esbonio gweithdrefnau sicrwydd ansawdd y sefydliad

Sicrhau cydymffurfiaeth

30. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyflwynwyd am wrthdaro buddiannau yn allweddol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddosbarthu'n gywir. Gallem, ar unrhyw bryd, ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw sefydliad neu unigolyn â rôl asesu neu ddarparu/cyflenwi Lwfansau Myfyrwyr Anabl ddarparu'r cyfryw wybodaeth y gofynnwn amdani mewn cysylltiad â gwrthdaro buddiannau neu achos posib o wrthdaro buddiannau.

31. Gall Llywodraeth Cymru gychwyn ymchwiliad i unrhyw sefydliad neu unigolyn â rôl asesu Lwfansau Myfyrwyr Anabl unrhyw bryd, os ydym o'r farn y gall fod gwrthdaro buddiannau neu achos posib o hynny. Yn fwyaf arbennig, gallem gychwyn ymchwiliad pan nad yw sefydliad neu unigolyn wedi datgan gwrthdaro neu wrthdaro posib neu os credwn fod trefniadau rheoli gwrthdaro neu wrthdaro posib naill ai'n annigonol neu fod yna achos o ddiffyg cydymffurfiaeth. **Os bydd Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw rhywun sy'n gysylltiedig ag asesu Lwfansau Myfyrwyr Anabl yn darparu technoleg a gwasanaethau cynorthwyol neu'n cyflenwi Cymorth Anfeddygol wedi llwyddo i fodloni'r safonau gofynnol a nodwyd yn y nodyn hwn, byddwn yn cymryd camau unioni priodol.**

32. Os yw Llywodraeth Cymru'n ystyried bod hyn yn briodol, gallai'r camau gweithredu gynnwys un neu bob un o'r canlynol:

- (a) gofyniad i gymryd camau unioni,
- (b) atal achrediad i ddarparu gwasanaethau cysylltiedig â Lwfansau Myfyrwyr Anabl, neu
- (c) diddymu'r achrediad i ddarparu gwasanaethau cysylltiedig â Lwfansau Myfyrwyr Anabl
- (d) gofyniad i ad-dalu'r arian Lwfansau Myfyrwyr Anabl a dalwyd yn amhriodol

33. Yn olaf, os yw rhywun yn poeni nad yw achos o wrthdaro buddiannau yn cael ei ddatgan neu'n cael ei reoli'n briodol, gallwch gysylltu â Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol trwy e-bostio studentfinancedivision@gov.wales. Bydd unrhyw ddatgeliadau yn cael eu hymchwilio cyn gynted â phosib ac yn cael eu trin yn deg a chyfrifol. Ni fyddwn yn datgelu pwy yw'r unigolyn gododd y pryder yn y lle cyntaf, heb ei ganiatad.

Atodiad 1

Hysbysiad Preifatrwydd - Gwrthdaro Buddiannau

Mae darparu eich gwasanaeth(au) i fyfyrwr fel rhan o'i gais neu hawliad am Lwfans i Fyfywrwr Anabl (DSA) Cyllid Myfywrwr Cymru yn dibynol ar eich bod yn darparu gwybodaeth bersonol (a elwir hefyd yn ddata). Mae'r data y cyfeirir atynt uchod yn cael eu casglu ar y Ffurflen Gwrthdaro Buddiannau. Bydd y data personol a ddarperir gennych, hynny yw enw a manylion cyswllt, ond yn cael eu defnyddio ar y cyd â'r sefydliad yr ydych yn llenwi'r ffurflen ar ei ran.

Y sail gyfreithlon rydym yn dibynnu arni i brosesu eich data personol yw Erthygl 6(1)(e) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae hyn yn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol ac i weinyddu a monitro'r cyllid a ddarperir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfywrwr, drwy Gyllid Myfywrwr Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu.

Beth fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth ar ei gyfer?

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir i gynnal adolygiad gwrthdaro buddiannau. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i baratoi ystadegau ac i wneud gwaith ymchwil ynghylch cymorth i bobl anabl, gan gynnwys monitro'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gennym.

Gyda phwy mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'r data a pham?

Bydd yr wybodaeth a ddarparwn yn cael ei chysylltu â ffynonellau gwybodaeth eraill y mae Llywodraeth Cymru ac adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei chadw ar gyfer gwirio a monitro perfformiad y gwasanaeth. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys y Cwmni Benthyciadau i Fyfywrwr, canghennau gweinyddol Cyllid Myfywrwr Cymru a Student Finance England, a'r Adran Addysg.

Byddwn yn rhannu eich data gyda'r sefydliadau hyn at ddibenion cysondeb a chywirdeb, ac ar gyfer monitro perfformiad a safonau gwasanaeth. Bydd unrhyw bryderon gyfyd ynghylch yr wybodaeth a ddarperir yn cael eu hystyried gan y timau perthnasol o fewn yr Adrannau.

Efallai y byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth â chontractwyr trydydd parti sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru i wneud gwaith dadansoddi data a chysylltu data, fel y gallwn fesur perfformiad y rhaglen.

Byddwn yn rhannu ac yn derbyn gwybodaeth gan asiantaethau atal twyll, cyrff y Llywodraeth a chyrff ariannu eraill er mwyn diogelu arian cyhoeddus ac atal a chanfod troseddau. Caniateir i ni, ac asiantaethau diogelu twyll, ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych i atal twyll a gwyngalchu arian. Os canfyddir achos o dwyll, gellid gwrthod gwasanaethau neu gyllid penodol i'r sefydliad yn y dyfodol.

Mae eich hawliau a'ch dewisiadau o dan y GDPR yn cynnwys:

- Mynediad at yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw amdanoch;

- Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro gwallau yn yr wybodaeth honno;
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Mewn rhai achosion, mae gennych yr hawl hefyd i:

- Wrthwynebu prosesu gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol;
- Cyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth;
- Cael eich gwybodaeth wedi'i dileu.

Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cadw eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth am gyfnod o 10 mlynedd yn unol â Pholisi Cadw Gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth am yr hysbysiad hwn neu am y prosesau sy'n gysylltiedig ag ef, cysylltwch â:

Yr Is-adran Addysg Uwch

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a sut y caiff ei defnyddio, neu i arfer eich hawliau o dan y GDPR, cysylltwch â:

Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

swyddogdiogeludata@llyw.cymru

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, cysylltwch â:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House

Water Lane

WILMSLOW

SK9 5AF

neu ffoniwch Llinell Gymorth Cymru ar 0330 4146421 neu Llinell Gymorth y Deyrnas Unedig ar 0303 123 1113

<https://ico.org.uk/>

Hysbysu am newidiadau

Cafodd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn ei greu ym mis Chwefror 2020 ac rydym yn ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfoes ac yn gywir. Os ydym yn bwriadu defnyddio eich gwybodaeth mewn ffordd wahanol i'r hyn a nodwyd ar adeg casglu eich gwybodaeth, byddwn yn rhoi gwybod i chi drwy'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn. Bydd yr holl waith prosesu gwybodaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data sy'n bodoli eisoes.